

1. Aelodau'n Presennol Mr Gwynfor Owen Cadeirydd  
Mri George Stuart; Gwilym Morris, Rhys Owen; Ceri Jones  
Wendy Griffiths; Carol Ann Jones; Cyng Aled M Jones

Cynrychiolaeth o National Grid yn bresennol

2. Ymddiheuriadau Cyng Richard Jones a Wil Hughes

3. Datgan Diddordeb Neb

4. Darllenwyd ac arwyddwyd Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 8fed Mehefin 2015

**5. MATERION YN CODI**

a) Archwiliad 2014-2015 -

Dogfennau wedi'u hanfon at Hacker Young am Archwiliad Allanol erbyn 28ain Mehefin 2015

b) Tir Ty'n LLidiart / Cae Chwarae

Adroddiad gan GLMP ar :

i) Sefyllfa'r brydles – twrna dal yn disgwyl cofrestru'r tir hefo 'Land Registry', wedi cael dogfennau / gwybodaeth anghywir gan y Cyngor Sir

ii) Cae yn gyffredinol – dipyn o ddefnydd ohonno.

Wedi cael ychydig o gwynion dros y penwythnos ynghlyn a porth wedi ei hagor o Stad Ty'n Llidiart I Llwybr Betsi. Cyng Aled Morris Jones am gysylltu ymhellach hefo'r Cyngor Sir ar hyn.

Arwyddion wedi'u gosod ar y pod (plant wedi bod ar ei ben etc)

Wedi derbyn amcan gost o £4300 gan Pwyllgor y Parc am dorri'r gwair dros gyfnod o flwyddyn, gofynwyd I'r clerc, atgoffa'r aelodau o lythyr dyddiedig 20fed Awst 2014 ac telerau y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a arwyddwyd ac mae eu cyfrifoldeb nhw ydi ariannu'r costiau yma. Ni fydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol o hyn.

Y Pwyllgor I ofalu am glirio'r gwair ar sydd gwrychyn eisioes wedi ei dorri.

Cyngor Cymuned I edrych I fewn I gost giat newydd rhwng y llecyn chwarae ar cae..

iii) Cyfarfodydd y Pwyllgor – Ceri Jones nac Aled M Jones ddim wedi cael gwybod am cyfarfodydd diweddar y pwyllgor. Y Cerc I anfon llythyr yn atgoffa'r aelod o delerau Memorandwm a chanolbwyntio'r pwysigrwydd bod y ddau uchod yn mynychu'r cyfarfodydd, a gofyn am gopiau o gofnodion cyfarfodydd y pwyllgor.

iv) Ariannol – dau infois I'w dalu I Macventure am y gweddill o'r offer.

TAW wedi ei dderbyn am y taliadau cynt.

Anfon sic am £60 I'r Pwyllgor setlo bil Mr Chris Higgs am heirio peiriant I dorri gwair, gan nodi mae hwn fydd yr unig daliad o'r math fydd yn cael ei gysidro.

c) Cloc

Prisiau ynglyn a drysau'r cloc wedi'u derbyn oddiwrth Hari Jones a Ken Williams

Rhodwyd yr hawl I'r clerc symud ymlaen I dderbyn pris Hari Jones ar ol ymholiadau pellach ynglyn a cost ychwanegol am wneud y drysau mewn coedyn caled h.y at £50 yn fwy.

- ch) Derbyniwyd amryw diolchiadau a gyfraniadau diweddar
- d) Cynrychiolaeth o National Grid yn y cyfarfod  
Yn dilyn arddngosfa / trafodaeth ynglyn ar lein arfaethdig o beilonau dros Mon o Gemaes I Pentir, datganwyd anfodlonrwydd yr aelodau at y cynlluniau arfaethedig yma.

## 6. LLYTHYRAU

- a) Cyngor Llanbadrig / Horizon  
Gwahoddiad I aelodau fynychu cyfarfod rhwng Cyngor Cymuned Llanbadrig a Mr Alan Raymant o Horizon yn ystod Awst
- b) Un Llais Cymru - cyfarfod Llangefni 22 Gorff gyda Horizon  
Y clerc I drefnu bod aelodau ar siop lleol yn cael copi o llythyr / petitiwn yn erbyn y peilonau  
Y clerc I ofyn I Mr D Rushworth os oedd a diddordeb mynych.

## 7. MATERION CYNLLUNIO

A) CEISIADAU CYNLLUNIO WEDI EU TRAFOD ERS Y CYFARFOD DIWETHAF  
CYTUNWYD I GEFNOGI CAIS I ADASU AC EHANGU RHOSYBOL BACH  
(AIL GAIS)

B) CEISIADAU CYNLLUNIO ANGEN EU TRAFOD  
DIM

C) PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO  
DIM

## 8. BILIAU

- a) Cyflog y clerc (Gorff ac Awst) (2 siec am £222.32 yr un)
- b) Zurich – polisi / infois 2015/6 - £1462.49
- c) MacVenture £15,333.60
- ch) Ffrindiau Parc (£60 I dalu Chris Higgs)
- d) O G Jones £100 am dorri Llwybr Betsi
- dd) Arwyddwyd siec yn barod ar gyfer gwaith drysau'r cloc I Mr Hari Jones

## 9. MATERION ERAILL

- 1) Cyfarfod gwarchod y cyhoedd wedi ei drefnu erbyn 7.00 nos iau 16 Gorff
- 2) Cyng Aled Morris Jones i gael ymatebion i'r canlynol:
  - a) I be mae angencostio ar ail wynebu;r ffordd o Llnerchymedd I Llangefni – lle mae llecynnau eraill mwy o angen gwyneb newydd
  - b) Angen I'r Cyngor Sir edrych ar y gwaith palmentu a 'ramp' yn Alaw View